

# Taith Gylchol y Trallwng



Trallwng

## Manylion y llwybr

Taith gerdded ar hyd Camlas Maldwyn, ac yna darn o Lwybr Clawdd Offa dros y Mynydd Hir.

| | |
|---|---|
| **Pellter:** | 8 milltir / 13 km |
| **Man cychwyn:** | Yr Hen Orsaf, gorsaf drenau'r Trallwng |
| **Cyfeirnod grid y man cychwyn:** | SJ 22911 07201 |
| **Disgrifiad what3words y man cychwyn:** | teigrod.cydiaf.ymroddiad |

## Cychwyn

Cychwynnwch wrth yr Hen Orsaf, yn agos at orsaf drenau'r Trallwng, a cherddwch yn syth drwy gylchfan fach yn dilyn arwydd am ganol y dref. Ychydig cyn i'r ffordd godi mewn twmpath i groesi Camlas Maldwyn, trowch i'r dde ar hyd llwybr tarmac byr, gan fynd heibio i garreg sy'n nodi diwedd Llwybr Glyndŵr. Mae hysbysfwrdd yn rhoi gwybodaeth am y Llwybr Cenedlaethol hwn, sy'n cychwyn yn Nhrefyclo ac yn mynd trwy Lanidloes a Machynlleth ar ei daith o 135 milltir (217 km) i'r Trallwng.

Trowch i'r dde i ddilyn llwybr halio Camlas Maldwyn, gan fynd o dan hen bont reilffordd, yna glanfa ac angorfeydd, cyn mynd o dan bont ffordd. Ymhellach ymlaen, mae'r gamlas yn mynd o dan brif ffordd brysur, tra bod y llwybr halio'n cael ei orfodi i fyny i'r ffordd, lle dylid defnyddio croesfan i gerddwyr. Ailymunwch â'r llwybr halio ar ochr arall y ffordd a pharhau, gan fynd yn ddiweddarach o dan bont a adeiladwyd o frics. Pan gyrhaeddir pont frics arall, peidiwch â mynd oddi tani, ond ewch i fyny ychydig o risiau a throwch i'r dde i lawr ffordd fer o'r enw Rhallt Lane. Croeswch briffordd a throwch i'r chwith i ddilyn y palmant heibio McDonalds a'r Farchnad Da Byw, yna cymerwch ffordd yr A458 gydag arwydd am Amwythig.

Cymerwch ofal wrth groesi pont brysur Tal-y-bont, lle nad oes palmant a lle ymunir â Llwybr Clawdd Offa. Yn syth ar ôl croesi'r bont, trowch i'r dde, ewch i lawr y grisiau, yna

# Llwybr Glyndŵr **TAITH BYR**
# Taith Gylchol y Trallwng




dilynwch lwybr maes, gan nodi'r logos mes sy'n nodi'r llwybr. Defnyddiwch gamfeydd grisiau i groesi rheilffordd, gan ofalu eich bod yn gwylio am drenau. Dilynwch lwybrau caeau, gan fynd drwy gatiau bach, i gyrraedd ffordd. Croeswch y ffordd a throwch i'r dde i gerdded ar lwybr palmantog o frics heibio i balisâd pren wrth ymyl Parc Busnes Clawdd Offa, gan groesi ei ffordd fynediad. Adeiladwyd y palisâd ar gwrs Clawdd Offa, er nad yw hyn yn amlwg ar lawr gwlad. Nid oes neb yn gwybod a oedd y clawdd yn cynnwys palisâd, ond, pe bai wedi, dyma oedd yr olwg arno o bosibl.

Pan ddaw'r llwybr palmantog o frics i ben, trowch i'r chwith ar hyd llwybr mynediad byr wrth ymyl tŷ. Ewch drwy giât fechan a dilynwch lwybr gyda choed o bobtu iddo. Ewch drwy giât fechan arall a dilynwch lwybr cul, sathredig o gae i gae fel y nodir gan farcwyr mes a saethau cyfeiriadol. Croeswch bont droed fechan a throwch i'r chwith i gerdded o gae i gae i fyny tuag at lwyth o adeiladau yn Stone House Farm. Ymunwch â thrac a'i ddilyn i'r dde o'r adeiladau, gan gerdded yn syth i fyny'r allt ac yn ddiweddarach cadw i'r chwith o dŷ unigol.

Ewch drwy giât fechan ar y chwith a dringwch yn syth i fyny'r allt, gan wylio am farcwyr. Mae giatiau bach ac arwyddbyst yn cael eu pasio wrth i ffordd gul gael ei chroesi. Parhewch yn syth i fyny'r allt drwy gae, gan sylwi ar 'gamfa gam' ar y dde sydd wedi'i cherfio â geiriau o'r hwiangerdd adnabyddus 'Mother Goose'. Dringwch o gae i gae trwy gatiau bach, yna ymunwch â thrac a'i ddilyn i fyny'r allt, gan blygu i'r dde i fynd heibio i dŷ unigol. Ewch drwy giât a throwch i'r chwith fel y nodir, yn syth i fyny'r allt eto. Ewch drwy giât fechan ac ewch ychydig i'r dde, gan ddringo'r llinell fwyaf serth posibl i fyny drwy gae. Dylech gyrraedd giât fechan arall ac arwyddbost, ac mae'r llwybr yn rhedeg ar raddiant mwy graddol. Ewch ymlaen, ond pan welir trac yn mynd yn syth tuag at blanhigfa goedwig, nid dyna'r ffordd i fynd. Yn lle hynny, sylwch ar saeth cyfeirbwynt sy'n pwyntio ychydig i'r dde o'r trac, a'r syniad yw cerdded ar draws pant glaswelltog ar ochr y bryn, gan obeithio dod o hyd i lwybr annelwig sy'n arwain at giât fechan ac arwyddbost ar ymyl coedwig arall.

Ewch drwy'r giât a dilynwch lwybr i mewn i'r goedwig, gan barhau drwy ardal sydd wedi'i chlirio i gyrraedd giât fechan arall. Mae hysbysiad yn egluro am Beacon Ring, neu Gaer Digoll, sef bryngaer o'r Oes Haearn wedi'i hamgylchynu gan arglawdd crwn a ffos. Plannwyd coetir ar y tu mewn yn 1953 i nodi coroni'r Frenhines Elizabeth II. Mae golygfeydd o'r awyr yn datgelu 'EIIR' yn y coed. Y pwynt uchaf yw 408m (1338 troedfedd). Cerddwch hanner ffordd o amgylch yr arglawdd crwn i ddod o hyd i hysbysiad arall, yn ogystal â mainc yn cynnig golygfeydd helaeth. Os oes gennych ddarn o bapur, mae stamp rwber ar gael i nodi eich ymweliad.

Ewch drwy giât fechan i ddilyn Llwybr Clawdd Offa i lawr yr allt yn ymyl cae. Croeswch gamfa risiau a pharhau i lawr trac, yna ewch yn syth i lawr yr allt yn ymyl cae i fynd drwy giât fechan i mewn i blanhigfa goedwig. Mae giât arall yn arwain allan o'r goedwig, yna trowch yn syth i'r dde a cherdded yn syth i lawr yr allt yn ymyl y goedwig. Ewch drwy giât fechan a pharhau'n syth i lawr ffordd

goedwig gul. Byddwch yn cyrraedd cyffordd lle mae Llwybr Clawdd Offa wedi'i arwyddo i'r chwith, ond trowch i'r dde yn lle hynny i ddychwelyd i'r Trallwng.

Mae'r ffordd yn disgyn yn serth a gellid ei dilyn yr holl ffordd i lawr i Bentre, ond trowch i'r chwith ar hyd trac sy'n gwasanaethu Leighton House i osgoi'r rhan fwyaf o'r daith gerdded ar hyd y ffordd. Ewch drwy borth mawr sydd wedi'i nodi'n breifat, yna trowch i'r dde yn syth i weld postyn marcio llwybr troed a giât mochyn. Mae llwybr cul yn disgyn i'r goedwig ac efallai fod rhai rhannau wedi tyfu ychydig yn wyllt. Mae'r llwybr yn codi ychydig i fynd heibio i dair coeden ffawydd enfawr cyn disgyn a phasio'n ddiweddarach o fewn golwg tŷ. Mae'r llwybr yn disgyn yn fwy serth, ac am ychydig mae'n rhedeg fwy neu lai ar hyd yr un llinell â Chlawdd Offa, er bod yr arglawdd hynafol yn ddirywiedig iawn. Trowch i'r dde ar hyd trac a'i ddilyn i ffordd. Trowch i'r chwith i lawr y ffordd, sy'n gwyro i'r chwith wrth fynd heibio i dai Pentre.

Trowch i'r dde i lawr ffordd sydd wedi'i harwyddo fel llwybr cyhoeddus. Cerddwch yn syth heibio Pentre Lodge ac ewch drwy giât bren ddwbl ac yna cerddwch ychydig i lawr trac glaswelltog. Trowch i'r chwith fel y nodir trwy giât fawr a chadwch at ochr chwith cae. Croeswch gamfa risiau i gae arall ac, os nad oes arwydd o lwybr sathredig, anelwch gryn dipyn i'r dde o seilo uchel, hyd nes y daw tŷ du a gwyn i'r golwg, yna anelwch i'r dde o hwnnw. Ewch trwy giât fechan a chroesi cae bychan i gyrraedd giât mochyn a ffordd.

Trowch i'r chwith ar hyd y ffordd a bron yn syth i'r dde, yn dilyn arwydd am y Trallwng. Nid oes palmant, felly cerddwch ar y dde, gan wynebu traffig sy'n dod tuag atoch, nes bydd palmant ar gael wrth groesi pont dros Afon Hafren. Arhoswch ar y palmant a dilynwch y ffordd yn syth ymlaen nes cyrraedd cylchfan fach. Daliwch yn syth ymlaen a dringwch i bont droed sy'n cynnig mynediad i orsaf drenau'r Trallwng a'r Hen Orsaf i orffen.

**Parcio:** Parcio yng ngorsaf drenau'r Trallwng, Church Street, Berriew Street a lleoliadau eraill o amgylch y dref.
**Bysiau:** Mae bysiau dyddiol TrawsCymru yn gwasanaethu'r Trallwng o Wrecsam a Machynlleth, ac eithrio dydd Sul.
**Trenau:** Mae trenau dyddiol Lein y Cambrian yn cysylltu'r Trallwng ag Amwythig, Machynlleth, Aberystwyth a Phwllheli.

